

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y
Trallwng, Powys) (Terfyn
Cyflymder 40 mya) 2021

The A458 Trunk Road (Welshpool,
Powys) (40 mph Speed Limit)
Order 2021

Gwnaed 13 Mai 2021
Yn dod i rym 17 Mai 2021

Made 13 May 2021
Coming into force 17 May 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mai 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Welshpool, Powys) (40 mph Speed Limit) Order 2021 and this Order comes into force on 17 May 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

Interpretation

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o bwynt 58 o fetrau i'r gorllewin o ben dwyreiniol yr ynys hollti sy'n gyfagos i Gylchfan Raven yr A458/A490/B4381 hyd at bwynt 388 o fetrau i'r de-orllewin o'r ynys hollti honno.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weiniogion Cymru.

Dyddiedig

13 Mai 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Welshpool, Powys that extends from a point 58 metres west of the eastern end of the splitter island adjacent to the A458/A490/B4381 Raven Roundabout to a point 388 metres south-west of that splitter island.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

13 May 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (Y TRALLWNG, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 17 Mai 2021.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A458 yn y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o bwynt 58 o fetrau i'r gorllewin o ben dwyreiniol yr ynys hollti sy'n gyfagos i Gylchfan Raven yr A458/A490/B4381 hyd at bwynt 388 o fetrau i'r de-orllewin o'r ynys hollti honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 14 Mai 2021 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed ynghyd â phlan ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1408055.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru


THE A458 TRUNK ROAD (WELSHPOOL, POWYS) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 17 May 2021.

The effect of the Order is to impose a 40 mph speed limit on the length of the A458 trunk road at Welshpool, Powys that extends from a point 58 metres west of the eastern end of the splitter island adjacent to the A458/A490/B4381 Raven Roundabout to a point 388 metres south-west of that splitter island.

During a period of 6 weeks from 14 May 2021, a copy of this Notice, the made Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1408055.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government